



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

## COFNODION Y CYNGOR YSGOL

**Mawrth 3ydd, 2013**

### Presennol

*Robert Gorman, Sara Fflur Griffiths,  
Dylan Skym, Gwenllian Thomas,  
Rhianedd Owen,  
Erin Davies, Elen Llywelyn Evans,  
Mrs Williams, Miss Llwyd*

### Absennol

*Dylan James-Williams, Sara ap Robert John*

### Agenda

#### 1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

Croesawodd Robert Gorman, Cadeirydd y Cyngor Ysgol, bawb i'r cyfarfod.

#### 2. Gwahoddiad gan yr heddlu i helpu i reoli traffig

Mae gwahoddiad wedi dod gan yr heddlu i ddau ddisgybl o'r ysgol fynd i'w helpu i reoli traffig ar Heol Llanbadarn un bore ym mis Mai. Ar ôl trafod, penderfynwyd taw Robert, Cadeirydd y Cyngor Ysgol a Sara Fflur, Ysgrifenyddes y Cyngor Ysgol fydd yn mynd, er mwyn cael cynrychiolaeth o'r ddau ddosbarth Blwyddyn 6.

#### 3. Bocs Syniadau

Edrychodd Robert a Dylan yn y Bocs Syniadau - doedd dim awgrymiadau yno y mis hwn. Penderfynwyd y byddai'n syniad i Robert a Dylan wneud cyhoeddiad yn y gwasanaeth ysgol gyfan nesaf i atgoffa holl ddisgyblion yr ysgol fod croeso iddynt gynnig syniadau er mwyn gwella'r ysgol yn y Bocs Syniadau unrhyw bryd.

#### 4. Arddangosfa'r Cyngor Ysgol yn y Neuadd

Atgoffwyd Sara Fflur a Gwenllian fod angen diweddarau cofnodion y cyfarfodydd sy'n ymddangos ar arddangosfa'r Cyngor Ysgol yn y neuadd, yn ogystal â'u diweddarau ar dudalen y Cyngor Ysgol ar wefan yr ysgol yn dilyn pob cyfarfod.

Diolchodd Robert i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod.

### Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Ebrill 19eg 2013

***Cofnodion gan Sara a Gwenllian (Ysgrifenyddes ac Is-Gadeiryddes).***